

## **Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6GHz i 3.8GHz**

Y wybodaeth ddiweddaraf am pryd bydd y sbectrwm ar gael

---

Wedi'i adolygu [🔍] ar gyfer ei gyhoeddi

**DIWEDDARIAD:**

**Dyddiad Cyhoeddi:** 2 Chwefror 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Ym mis Hydref 2017, fe wnaethom gadarnhau sut rydym yn bwriadu ymestyn mynediad sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol yn y dyfodol yn y band 3.6GHz i 3.8GHz er mwyn galluogi dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU i elwa ar wasanaethau symudol yn y dyfodol yn cynnwys 5G.

Fe wnaethom felly ddechrau'r broses statudol i gynnig:

- diddymu trwyddedau cysylltiadau sefydlog yn y band 3.6GHz i 3.8GHz; ac
- amrywio trwyddedau a dyfarniadau mynediad sbectrwm cydnabyddedig ar gyfer gorsafoedd daear lloeren fel na fyddai Ofcom mwyach yn ystyried gorsafoedd daear lloeren gyda chydran derbyn yn y band 3.6GHz i 3.8GHz at ddibenion rheoli amledd.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am pryd rydym yn disgwyl i'r sbectrwm yn y band 3.6GHz to 3.8GHz fod ar gael, yn dilyn y trafodaethau rydym wedi'u cynnal fel rhan o'r broses honno.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb gweithredol

1

# 1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom nodi ein bwriad i ryddhau'r band 3.6GHz i 3.8GHz ar gyfer defnydd symudol cyn gynted â phosibl.<sup>1</sup>
- 1.2 Ym mis Hydref 2017 fe wnaethom gyhoeddi datganiad<sup>2</sup> yn cadarnhau ein dull gyda defnyddwyr cofrestredig presennol y band, a dechrau'r broses statudol i gynnig:
  - diddymu'r trwyddedau cysylltiadau sefydlog yn y band 3.6GHz i 3.8GHz gyda chyfnod rhybudd o 5 mlynedd; ac
  - amrywio trwyddedau a dyfarniadau Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer gorsafoedd daear lloeren fel na fyddai Ofcom, o 1 Mehefin 2020 ymlaen, yn ystyried gorsafoedd daear lloeren gyda chydran derbyn yn y band at ddibenion rheoli amledd.
- 1.3 Cafodd trwyddedigion fis i gyflwyno sylwadau ar ein cynigion o ran eu trwydded(au) neu ddyfarniad(au) Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig. Fe wnaethom ystyried sylwadau pob trwyddedai yn ofalus cyn dod i'n penderfyniad terfynol yng nghyswllt trwyddedau a dyfarniadau unigol.
- 1.4 Ym mhob achos ond un, fe wnaethom benderfynu diddymu neu amrywio'r drwydded neu'r dyfarniad fel y cynigiwyd.
- 1.5 Rydym felly wedi:
  - diddymu'r holl drwyddedau cysylltiadau sefydlog yn y band fel y cynigiwyd, gyda dyddiad dod i rym o 23 Rhagfyr 2022;
  - amrywio 12 o drwyddedau Gorsafoedd Daear Parhaol a thri dyfarniad Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig fel y cynigiwyd, gyda dyddiad dod i rym o 1 Mehefin 2020; ac
  - amrywio un dyfarniad Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig gyda dyddiad dod i rym o 1 Medi 2020.
- 1.6 Effaith ein penderfyniadau, yn unol â'r dull arfaethedig y gwnaethom ei nodi yn natganiad mis Hydref, yw y bydd y sbectrwm ar gael i alluogi cyflwyno gwasanaethau symudol yn y band 3.6GHz i 3.8GHz yn y dyfodol mewn sawl ardal o fis Mehefin 2020 ymlaen, ond nid yn genedlaethol o reidrwydd cyn diwedd 2022. Byddwn yn anelu at symud o ddefnyddio gweithrediadau cysylltiadau sefydlog i ddefnyddio amleddau neu dechnolegau amgen erbyn mis Mehefin 2020 lle bo modd.

---

<sup>1</sup> Ofcom, *Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6GHz i 3.8GHz*, Datganiad ac Ymgynghoriad, 28 Gorffennaf 2017 [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf)

<sup>2</sup> Ofcom, *Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6GHz i 3.8GHz*, Datganiad, 26 Hydref 2017 [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf)

- 1.7 Rydym yn bwriadu dyfarnu'r sbectrwm nad yw eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig yn 2019. Byddwn yn ymgynghori ynghylch hyn yn ddiweddarach eleni er mwyn paratoi at y dyfarniad hwn.